------------------------Pecyn dogfennau cyhoeddus ------------------------

# Y Pwyllgor Cyllid

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 2 – y Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Mercher, 25 Chwefror 2015** |
| Amser: | **09.00 – 12.06** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Gellir gwylio'r cyfarfod ar [Senedd TV](http://senedd.tv/cy/2651) yn:
**http://senedd.tv/cy/2651**

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **Jocelyn Davies AC (Cadeirydd)**<br>**Peter Black AC**<br>**Christine Chapman AC**<br>**Mike Hedges AC**<br>**Alun Ffred Jones AC**<br>**Ann Jones AC**<br>**Julie Morgan AC**<br>**Nick Ramsay AC**<br>**Kirsty Williams AC** |
| Tystion: | **Jane Hutt AC, Y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth**<br>**Gawain Evans, Llywodraeth Cymru**<br>**Matt Denham Jones, Llywodraeth Cymru**<br>**Lyn Cadwallader, Un Llais Cymru**<br>**Daniel Hurford, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru** |
| Staff y Pwyllgor: | **Bethan Davies (Clerc)**<br>**Leanne Hatcher (Ail Clerc)**<br>**Tanwen Summers (Dirprwy Glerc)**<br>**Martin Jennings (Ymchwilydd)**<br>**Gareth David Thomas (Ymchwilydd)**<br>**Joanest Varney-Jackson (Cynghorydd Cyfreithiol)** |

Ian Summers (Cynghorwr Arbenigol)

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r cyfarfod.

1.2 Ni chafwyd ymddiheuriadau. Roedd Kirsty Williams yn dirprwyo ar ran Peter Black am ran o'r cyfarfod.

## 2 Papurau i'w nodi

2.1 Cafodd y papurau eu nodi.

## 3 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes canlynol:

3.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 4 Arferion Gorau o ran y Gyllideb: Ystyried yr Adroddiad Drafft

4.1 Ystyriodd y Pwyllgor yr adroddiad drafft ar Arferion Gorau o ran y Gyllideb Rhan 2, a chytunwyd ar nifer fach o newidiadau.

## 5 Penodi Aelodau anweithredol Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru

5.1 Cytunodd y Pwyllgor ar benodiad Lindsay Foyster fel Aelod anweithredol ar Fwrdd Swyddfa Archwilio Cymru o dan Reol Sefydlog 18.10(v).

## 6 Ystyriaeth gychwynnol o'r Bil Rhenti Cartrefi (Cymru)

6.1 Ystyriodd y Pwyllgor oblygiadau ariannol y Bil Rhentu Cartrefi (Cymru).

## 7 Amcangyfrif Atodol Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer 2014-15

7.1 Ystyriodd y Pwyllgor Amcangyfrif Atodol Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer 2014-15.

## 8 Cyllideb Atodol Comisiwn y Cynulliad ar gyfer 2014-15

8.1 Ystyriodd y Pwyllgor Gyllideb Atodol Comisiwn y Cynulliad ar gyfer 2014-15.

## 9 Ail Gyllideb Atodol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2014-15

9.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Jane Hutt AC, y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth, Gawain Evans, Dirprwy Gyfarwyddwr Rheolaethau Ariannol, Llywodraeth Cymru a Matt Denham-Jones, Pennaeth Rheoli ac Adrodd Cyllidebol, Llywodraeth Cymru.

9.2 Cytunodd y Gweinidog i ddarparu'r canlynol:

- Cadarnhad os yw'r holl gynlluniau tair blynedd a gyflwynwyd gan fyrddau iechyd wedi cael eu cytuno.
- Darparu gwybodaeth am y diogelwch a gynigir i'r gyllideb llywodraeth leol.

## 10 Ail Gyllideb Atodol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2014-15: Trafod y dystiolaeth

10.1 Ystyriodd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law.

## 11 Ystyried pwerau: Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru: Sesiwn dystiolaeth 4

11.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Daniel Hurford, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Lyn Cadwallader, Cyfarwyddwr, Un Llais Cymru ar gyfer ei ymchwiliad.

11.2 Cytunodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i ddarparu gwybodaeth am y ffyrdd y mae awdurdodau lleol yn derbyn cwynion.

## 12 Ystyried pwerau: Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru - trafod y dystiolaeth

12.1 Ystyriodd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law.